complantcymru.org.uk

# Effaith ein Gwaith: Gaeaf

**Tlodi Plant yw'r her fwyaf a phwysicaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru. Mae teuluoedd yn poeni am wresogi eu cartrefi, rhoi bwyd ar y bwrdd, a thalu am anghenion sylfaenol eraill fel dillad a theithio. Ac yn ystod misoedd oeraf y flwyddyn, mae'r pwysau hyn yn dwysáu. Mae angen i lywodraethau ar ddau ben yr M4 ddod o hyd i ffordd i roi mwy o arian ym mhocedi pobl, i help gyda chostau byw, ac i amddiffyn plant rhag yr effaith ddinistriol mae tlodi'n gallu cael ar eu bywydau. Ac mae gan bob corff cyhoeddus ran i'w chwarae hefyd. Y mis hwn mae fy nhîm wedi cyhoeddi 'Dull Hawliau Plant at fynd i'r afael â thlodi', fframwaith ymarferol i helpu i ganolbwyntio penderfyniadau polisi a chyllidebol ar fynd i'r afael ag anghenion y plant mwyaf agored i niwed. Darllenwch fwy ar dudalen 7.**



## 1 Yma i bob plentyn



Mae ein tîm ymgysylltu yn rhoi lleisiau plant ar ganol ein gwaith, gan glywed barn a phrofiadau o bob cornel o Gymru.

**Dros y tri mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu â dros 3000 o blant a phobl ifanc, wedi gweithio gydag oedolion sy'n cefnogi plant, ac wedi gwrando ar farn miloedd o blant drwy ein holiaduron Mater y Mis.**

# Mater y Mis – ein pecyn trafod a holiadur misol i ysgolion a chlybiau

Dros y tri mis diwethaf, rydym wedi clywed barn plant am:

- Weithredu hinsawdd: gofynnon ni i blant a phobl ifanc sut maen nhw'n helpu'r amgylchedd gartref, yn yr ysgol, ac yn eu cymuned, a pha mor ymwybodol ydyn nhw o weithredu lleol a chenedlaethol yn y maes hwn.
- Hawliau Dynol: roeddem eisiau gwybod pa feysydd o hawliau dynol oedd gan blant y diddordeb mwyaf ynddynt a sut oeddent am ddysgu amdanynt
- Tai: dywedodd plant wrthym beth maen nhw'n ei hoffi am eu cartrefi, beth fydden nhw'n ei newid, a beth sy'n gwneud cartref da. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cyfrannu at ein hadroddiad tai sydd ar y gweill, a fydd yn clywed cyfrifon uniongyrchol plant o brofiadau tai. Byddwn yn galw ar bleidiau i wneud ymrwymiadau cadarnhaol yn eu maniffestos etholiadol.

Gallwch ddarllen adroddiadau o'n holiadurion Mater y Mis sydd wedi'u cwblhau ar ein gwefan.

## Gweithredu Hinsawdd

- **Hoffai 31% o blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn grŵp sy'n helpu'r amgylchedd, fodd bynnag, dywedodd 42% eu bod nhw ddim yn gwybod am unrhyw grwpiau a gefnogodd yr amgylchedd, a dywedodd 47% yr un peth pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gwybod beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r amgylchedd. O ystyried y canfyddiadau hyn, byddai gwybodaeth sy'n addas i blant am y camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru, a chyfleoedd i weithredu i helpu'r amgylchedd yn ddefnyddiol i hyrwyddo gweithredu ymhellach yn yr hinsawdd.**
- **Dim ond 15% o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg hwn a nododd eu bod wedi defnyddio 'mwy o drafnidiaeth gyhoeddus' i helpu'r amgylchedd. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ein galwadau am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl dan 18 oed, nid yn unig o ran fynd i'r afael â thlodi plant, ond hefyd i gyflwyno ymddygiadau gydol oes mewn perthynas â thrafnidiaeth a all fod o fudd i'r amgylchedd.**

## Hawliau dynol

- O'r ystod eang o bynciau a restrwyd gennym, roedd gan blant ddiddordeb mwyaf mewn dysgu am iechyd (corfforol a meddyliol) trwy lens hawliau dynol.
- Dilynwyd hyn gan ddiogelwch yn yr ysgol, yn y cartref, a'r gymuned, a defnyddio eu llais.
- Roedd y plant eisiau dysgu trwy wylio clipiau fideo, gweithgareddau yn y dosbarth, cwisiau a phosteri.

Bydd eu hatebion yn ein helpu i siapio ein cynnig i ysgolion a grwpiau ieuenctid



## Tai

- Pan ofynnwyd am beth maent yn hoffi am eu cartref, yr ateb mwyaf cyffredin oedd atebion mewn perthynas â chysur a pha mor clyd ydy’r cartref, eu gwely neu ystafell wely, eu teulu, neu teimlo’n ddiogel.
- Pan ofynnwyd os ydy’r gofod maent yn gwenud eu gwaith cartref yn ofod da i weithio, dangosodd yr atebion mwyaf cyffredin bod pobl ifanc yn gwerthfarwogi preifatrwydd, tawelwch, a desg.
- Teimlodd plant fod teulu, diogwlch a chysur yn gwneud cartref da.

Byddwn ni’n dadansoddi yr ymatebion yn llawn fel rhan o’n hymchwil ehangach ar Dai a Digartrefedd yng Nghymru. Rydyn ni’n bwriadu cyhoeddi hyn yn y gwanwyn



2

# Gwireddu hawliau

Q&A

Mae ein tîm Cyngor yn helpu plant i gael mynediad at eu hawliau dynol.

Gyda dros 30 mlynedd o brofiad o helpu plant a phobl Ifanc yng Nghymru i gael eu hawliau dynol, mae ein Tîm Cyngor yn gyfarwydd iawn â rhai o'r materion mwyaf sy'n effeithio ar deuluoedd.

**Eisteddon ni i lawr am sgwrs gydag aelodau ein tîm i glywed mwy am eu gwaith.**

**C:** Beth oedd y materion mwyaf y gwnaethoch chi ddelio â nhw fel tîm yn 2024?

**A:** Byddwn i'n dweud mai'r un uchaf fyddai'r anawsterau a grëwyd gan y trawsnewid i'r broses ADY newydd. Mae wedi creu llawer o anawsterau i rieni ledled Cymru, ac mae nifer o faterion o fewn hynny, ond y trawsnewidiad cyfan sy'n creu llawer iawn o broblemau i rieni a theuluoedd ac awdurdodau lleol. Yr hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd yw bod pobl yn ei chael hi'n anodd deall a symud trwy'r system newydd: rhieni, ond gweithwyr proffesiynol yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.

Rydym yn gweld cynnydd yn y nifer o rhieni sy'n dod atom yn dweud bod eu plant yn awtistig, ond heb ddiagnosis. Mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd cwrdd gyda'r heriau, a gall hyn greu tensiynau rhwng yr ysgolion a'r rhieni. Mae amseroedd aros parhaus ar gyfer yr asesiadau hyn yn achosi problemau gan fod rhieni'n gweld eu plant mewn angen, ond mae ysgolion yn aml yn dweud and ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer atgyfeiriad.

**C:** Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer 2025?

**A:** Rydym yn ymdrin ag ystod mor eang o faterion y credaf y byddwn yn ymdrin ag ystod eang o bethau eto ar gyfer 2025.

Mae tai yn broblem, a dwi'n rhagweld y cawn ni fwy o achosion eleni achos mae'r sefyllfa yn gwaethygu.

Gall llawer o alwadau ymwneud â rhestrau aros ac eiddo addasadwy. Yn anffodus, gyda rhestrau aros mae'r hyn y gallwn ei wneud yn gyfyngedig, ond byddem yn cysylltu â thîm yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod pobl ar y lle cywir ar y rhestr aros, a gydag addasiadau mae'n ymwneud â sicrhau bod yr awdurdod lleol wedi ystyried popeth. Er enghraifft, ar gyfer plentyn anabl, byddem yn cynghori'r teulu yn y lle cyntaf i siarad â therapydd galwedigaethol i asesu anghenion y plentyn, a allai wedyn arwain at atgyfeiriad am grant cyfleusterau anabl y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel talu am estyniad, gosod teclyn codi, lifftiau grisiau, ystafelloedd cawod, pethau i wneud y llety yn addas i'r plentyn.

Ar adegau eraill, mae'n ymwneud â helpu'r teulu i ddeall y sefyllfa a llywio gwasanaethau gwahanol, ac weithiau cael darparwyr tai cymdeithasol i siarad â theuluoedd yn uniongyrchol




**C:** Wrth edrych yn ôl ar y cannoedd o achosion deliodd y tîm â nhw yn 2024, pa waith ydych chi'n fwyaf balch ohono?

**A:** I mi, dyma'r rhai lle mae gennym blant yn ôl i fyd addysg. Lle rydym wedi gweithio gyda rhieni, y plentyn a'r awdurdod lleol i gael y plentyn i ail-ymgysylltu â'i addysg, sy'n enfawr i ni. Dyma hefyd lle mae'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd wedi chwalu'n llwyr, felly byddem yn dechrau'r sgwrs rhwng yr awdurdod lleol a'r teulu, oherwydd bod y plentyn wedi ei ddal yn y canol - byddwn yn ei ddatrys yn ddigon fel y gall y plentyn fynd yn ôl i'r ysgol a gall y trafodaethau barhau ochr yn ochr ag ef.

Peth arall rwy'n credu ein bod ni'n ei wneud yn dda iawn yw'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i alluogi rhieni i ddatblygu eu pryderon eu hunain. Rydym yn rhoi llawer o gyngor i rymuso rhieni i'w galluogi i ddelio â'u materion eu hunain, gan roi'r wybodaeth iddynt ddelio â'r materion y tro hwn a rhoi hyder iddynt ddelio â phethau wrth iddynt symud ymlaen.



## Rydyn ni yma i helpu

Gallwch chi gysylltu â ni fel hyn:
Gwefan: **www.complantcymru.org.uk**
E-bost: **cyngor@complantcymru.org.uk**
Rhadffôn: **0808 801 1000**

# Y Ffordd Gywir:
# Dull Halwiau Plant i fynd i’r afael â thlodi plant

Mae byw mewn tlodi yn dal i gael effaith ddifrodol, ddinistriol a pharhaol ar fywydau plant, ac mae’n effeithio’n sylfaenol ar eu hawliau dynol hefyd.

Mae yna dyletswyddau statudol penodol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd yna i amddiffyn plant rhag effaith tlodi, a helpu i godi plant allan o dlodi. Ac mae gan Wenidogion Llywodraeth Cymru dyletswyddau ychwanegol o ran hawliau plant.

Nid yw’r dyletswyddau hyn wedi arwain at ostwng lefel tlodi plant. **Ond os byddwn ni’n wir yn mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau plant o daclo tlodi, bydd polisi a phenderfyniadau cyllidebol yn canolbwyntio ar roi sylw i anghenion y plant mwyaf agored i niwed**.

Mae fy swyddfa wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau Y Ffordd Gywir, sy’n darparu fframweithiau ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi’u seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, i helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer, ac yn allweddol, i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau. Mae’r ychwanegiad diweddaraf hwn yn rhoi arweiniad ar ddull seiliedig ar hawliau plant (CRA) o ymdrin â thlodi plant – mae’n amlinellu **fframwaith ymarferol** sy’n cefnogi cyflawni hawliau plant. Mae’n cynnig **ffordd i gyrff cyhoeddus weithio’n gyfannol gan gefnogi gweithrediad ymarferol ac egwyddorol holl hawliau plant,** gan gynnwys yr hawliau sy’n cael effaith ar dlodi plant.

Rydyn ni’n eich annog i’w ddefnyddio. Darllenwch e ar ein gwefan



3

# Heriwr

**Mae ein tîm polisi yn herio a dal yr rhai sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif ar y materion allweddol sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc.**

## Diogelu plant

Mae digwyddiadau a datblygiadau dros y chwe mis diwethaf wedi golygu ein bod wedi treulio mwy o amser nag arfer ar faterion sy'n ymwneud â diogelu. Dyma drosolwg byr o rywfaint o'r gwaith rydym wedi bod yn gweithredu.

**Achos Gwynedd**

Yn dilyn euogfarn Neil Foden ym mis Gorffennaf 2024 o gam-drin plant yn ei ofal tra'n bennaeth yn Ysgol Friars, mae'r swyddfa wedi cael amrywiaeth o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tîm Adolygiad Ymarfer Plant (CPR), Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac uwch swyddogion awdurdod lleol Gwynedd. Rydym hefyd wedi clywed gan rieni pryderus, cynrychiolwyr etholedig ac aelodau o'r cyhoedd sy'n pryderu.

Drwy'r cyfarfodydd hyn rydym wedi galw'n barhaus am gyfathrebu mwy tryloyw gyda'r cyhoedd i roi sicrwydd, gan gynnwys galw am gyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Plant. Cafodd hwn ei gyhoeddu ddiwedd mis Ionawr a'i groesawu gan y Comisiynydd. Croesawodd y Comisiynydd hefyd gyhoeddiad Cynllun Ymateb Gwynedd, ac rydym yn parhau i fod mewn trafodaethau parhaus gyda'r awdurdod lleol ynghylch eu cynlluniau a'u camau gweithredu i gadw plant yn ddiogel.

**Ynys Bŷr**

Cynhaliwyd adolygiad diogelu annibynnol i honiadau hanesyddol o gam-drin ar Ynys Bŷr, a chyhoeddwyd eu hadroddiad ym mis Rhagfyr 2024. Roedd hyn yn dilyn blynyddoedd o bryderon a honiadau yn cael eu gwneud am gam-drin plant ar yr ynys. Cyfarfu'r Comisiynydd â'r adolygydd, Jan Pickles, a gyda dau o'r dioddefwyr. Rydym hefyd yn cyfathrebu ag awdurdod lleol Sir Benfro i sefydlu eu rôl yn y trefniadau diogelu parhaus, yn unol ag argymhellion yr adolygiad, a gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i ofyn am eglurder am bwy sy'n goruchwylio'r ynys fel sefydliad trefn grefyddol.

**Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR)**

Ers mis Hydref 2024, mae trefniadau newydd wedi bod ar waith yng Nghymru gyda'r nod o ddod â Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Dynladdiad Arfau Sarhaus at ei gilydd. Mae yna hefyd 'ystorfa' newydd sy'n fodd i gasglu adolygiadau cyhoeddedig (gan gynnwys CPRs a gyhoeddwyd yn flaenorol) a chynlluniau gweithredu, gyda'r bwriad o alluogi dadansoddiad thematig o batrymau allweddol a materion rheolaidd.

Rydym wedi bod yn cymryd rhan mewn deialog barhaus â Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, drwy ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ysgrifenedig, cyfarfodydd a gohebiaeth gyda Gweinidogion a swyddogion, i geisio eglurder ar sut y bydd y mecanwaith newydd yn sicrhau y gellir adnabod a gweithredu'r dysgu o adolygiadau yn llawn, ledled Cymru.

Gwahoddwyd y Comisiynydd i ymuno â Bwrdd Cynghori Gweinidogol SUSR a gyfarfu ym mis Ionawr 2025 ac a fydd yn cyfarfod eto ym mis Gorffennaf 2025.

**Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)**

Er bod adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) wedi'i gyhoeddi yn 2022, mae digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at eu gwaith eto, gyda chadeirydd yr ymchwiliad hwn, yr Athro Alexis Jay, yn gwneud galwadau newydd am weithredu argymhellion yr adroddiad yn llawn ac yn gyflym.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb ei hun i'r argymhellion yn 2023, gan dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion perthnasol. Fel swyddfa, rydym wedi gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar sut mae'n symud ymlaen i weithredu'r argymhellion hyn. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn deall cynnydd tuag at argymhelliad sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant a sut mae LlC yn gweld rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, yn unol â'u hymateb.

Ysgrifennodd ein Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Rachel Thomas, darn ar gyfer Nation Cymru yn edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen ar bob un o'r chwe argymhelliad a roddwyd gan yr ymchwiliad.

## Papur safbwynt - Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gwyddom fod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn aml yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at gymorth mewn meysydd fel addysg ac iechyd. Beth yw'r heriau a beth sydd angen ei newid? Darllenwch ein polisi ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae ein tudalennau safbwynt polisi yn adnodd ardderchog i weithwyr proffesiynol sydd eisiau trosolwg o ddefnydd y Comisiynydd Plant ar ystod o faterion hawliau plant.



# 4 Goleuo'r Gwir

**Rydyn ni'n gweithio'n galed i oleuo profiadau plant a phobl ifanc, ac i'w defnyddio i greu newid.**

## Lwc/Luck - Argymhellion gan bobl ifanc mewn gofal - y camau nesaf ar gyfer polisi ac ymarfer

Ar ôl gweithio'n agos gyda grŵp o bobl ifanc â phrofiad gofal y llynedd, a arweiniodd at arddangosfa yn y Senedd yn cyflwyno eu barn a'u hargymhellion i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn seiliedig ar eu gwaith.

Mae'n rhywbeth rydyn ni'n credu y dylai pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc â phrofiad gofal ei ddarllen.

Byddai eu hargymhellion, yn uniongyrchol ac ymarferol, yn gwneud gwahaniaeth anfesuradwy i fywydau plant mewn gofal.



Nid yw'n ddigon dweud yn syml y dylai'r profiadau hyn fod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol; mae'n rhaid i ni sicrhau bod hynny'n wir am bob plentyn yng Nghymru ac nid dim ond ambell un 'lwcus'.

Rydym yn gwybod bod ein gwaith eisoes yn gwneud gwahaniaeth. Roeddem yn falch iawn o glywed bod AFKA Cymru, sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol a rhieni sy'n gysylltiedig â gofal plant, wedi ychwanegu cyrsiau penodol at eu rhaglen hyfforddi sydd wedi cael eu dylanwadu gan ein gwaith.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo anghenion a hawliau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a byddwn yn sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu clywed yn gyson ac yn uchel!

Darllenwch yr adroddiad ar ein gwefan



# Diolch/am ddarllen! Byddwn ni'n cyhoeddi ein papur effaith nesaf yn y gwanwyn

Yn y cyfamser, cofrestrwch i'n cylchlythyr.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


post@childcomwales.org.uk
01792 765600

Children's Commissioner for Wales
Llewellyn House
Harbourside Business Park
Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB